COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS POLICE AND CRIME COMMISSIONER

TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

Diben: Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl 084

Amseru: Arferol

Teitl: Adolygiad o Gylch Gorchwyl y Bwrdd Cynghori ar Gomisiynu

Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Craffu/ Perfformiad

Executive Summary:

Mae'r penderfyniad hwn yn ymwneud â'r adolygiad o Gylch Gorchwyl y Bwrdd Cynghori ar Gomisiynu (a sefydlwyd ym mis Mawrth 2017).

Argymhelliad:

Bod Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu'n cymeradwyo'r diwygiadau i gylch gorchwyl y Bwrdd Cynghori ar Gomisiynu fel sy'n atodedig.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

Llofnod: Dafydd Llywelyn **Dyddiad:** 16/8/2018

Cylch Gorchwyl

Teitl y Cyfarfod:	Bwrdd Cynghori ar Gomisiynu
Datganiad o ddiben y cyfarfod:	Mae Deddf yr Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn mynnu bod Comisiynwyr Heddlu a Throseddu (CHTh) yn cynhyrchu Cynllun Heddlu a Throseddu sy'n nodi blaenoriaethau plismona'r Comisiynydd ac yn cyfathrebu'r rhain wrth y cyhoedd, asiantaethau partner a rhanddeiliaid eraill. Mae'r Cynllun Heddlu a Throseddu'n nodi blaenoriaethau'r Comisiynydd, ynghyd â manylion ynghylch sut y bydd cynnydd yn cael ei fesur. Er mwyn cefnogi'r cynllun, mae'r Comisiynydd wedi nodi ei ymagwedd tuag at gomisiynu gwasanaethau a chanlyniadau ar gyfer cymunedau Dyfed-Powys. Bydd comisiynu gwasanaethau'n cael ei lunio drwy gydol oes y Cynllun Heddlu a Throseddu er mwyn sicrhau bod gwasanaethau dal wedi'u halinio â blaenoriaethau strategol. Mae'r CHTh ar gyfer Dyfed-Powys yn gosod cyllideb flynyddol er mwyn hwyluso comisiynu gwasanaethau. Yn ogystal â hyn, mae'r Comisiynydd wedi sicrhau bod sawl rhaglen ariannu ar gael i gymunedau a sefydliadau partner wneud cais amdanynt, a fydd yn ariannu prosiectau refeniw a chyfalaf sy'n cefnogi gweledigaeth ei Gynllun Heddlu a Throseddu.
Amcanion y Cyfarfod:	Bydd y Bwrdd Ymgynghorol ar Gomisiynu'n gweithredu fel y corff adolygu ar gyfer Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys. Bydd y Bwrdd yn ei gynghori mewn perthynas â gwobrwyo arian grant neu dendro ar gyfer gwasanaethau. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau bod gwerthusiad o effaith gwasanaethau ac elw o fuddsoddi. Bydd y bwrdd yn canolbwyntio ar graffu ar yr adolygiad achos busnes a dal darparwyr gwasanaethau i gyfrif.

Targedau cyflawnadwy:	• Rhoi cyngor i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu gan ystyried y Fframwaith Gomisiynu a'r bwriadau comisiynu o fewn ei Gynllun Heddlu a Throseddu. • Gwneud argymhellion ynghylch buddsoddi a dadfuddsoddi sydd angen er mwyn cyflenwi blaenoriaethau cynllunio strategol a datblygu gwasanaethau. • Ystyried amryw o ddewisiadau ar gyfer buddsoddi mewn gwasanaethau. • Goruchwylio'r canlyniad a'r trefniadau monitro ar gyfer cyflenwi gwasanaethau yn erbyn y Cynllun Heddlu a Throseddu, gan gynnwys fframweithiau monitro perfformiad, targedau a strwythurau adrodd. • Derbyn gwerthusiadau, gwneud argymhellion a chadw goruchwyliaeth mewn perthynas â phob achos busnes posibl i sicrhau cyllid ychwanegol i mewn i Ddyfed-Powys (gan gynnwys Cronfa Trawsnewid yr Heddlu, cyllid gan Lywodraeth Cymru / Y Swyddfa Gartref, cynigion rhanbarthol ar y cyd megis Trais yn Erbyn Menywod ac ati). • Ystyried cymeradwyo argymhellion gan y Rheolwr Ariannu Allanol mewn perthynas â chynigion a dderbyniwyd ar gyfer dyraniadau ariannu amrywiol y Comisiynydd. • Sicrhau tegwch a thryloywder yn y broses benderfynu a hysbysu Swyddog Monitro Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu am unrhyw arfer annheg a nodwyd. Disgwylir i aelodau bwrdd ddatgan unrhyw wrthdaro o ran buddiannau yn ffurfiol mewn perthynas ag unrhyw benderfyniadau a wneir ynghylch cynnig ar gyfer prosiect, cynigion sydd wedi'u tendro neu geisiadau am gyllid.

Llywodraethu

Cadeirydd:	Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

Dirprwy gadeirydd:	Y Cyfarwyddwr Comisiynu
Amlder:	Chwarterol – 2 fis yn dilyn chwarteri cyllidol er mwyn sicrhau bod data ac adroddiadau wedi'u derbyn a bod cyfarfodydd adolygu wedi'u cynnal gyda'r darparwyr gwasanaethau – Chwefror, Mai, Awst, Tachwedd.
Yn adrodd i:	Y Bwrdd Plismona
Aelodaeth (teitl swydd, cyfrifoldeb, ac eilydd enwebedig)	• Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu • Y Cyfarwyddwr Comisiynu, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh) • Prif Swyddog Ariannol, SCHTh • Ymgynghorydd Ariannu Allanol, SCHTh • Prif Gwnstabl Cynorthwyol, Cynrychiolydd ar gyfer Prif Swyddogion, Heddlu Dyfed-Powys • Aelod o'r Panel Sicrhau Ansawdd • Aelod o'r Cyd-bwyllgor Archwilio • Aelod o'r Panel Heddlu a Throseddu • Aelod o'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol • Ymwelydd Annibynnol â Dalfeydd Mae'r Cadeirydd yn cadw'r hawl i gyfethol aelodau ychwanegol i gynrychioli sefydliadau neu asiantaethau eraill ar gyfer cyfarfodydd neu eitemau agenda penodol. Ni fydd hawl pleidleisio gan y cynrychiolwyr hyn. Dylai fod gan bob cynrychiolydd yr arbenigedd i gynghori a'r awdurdod i wneud penderfyniadau o fewn cyfarfodydd Bwrdd ar gyfer eu hadran / sefydliad unigol. Bydd gan unrhyw gynrychiolydd sy'n cymryd lle rhywun bwerau dirprwyedig i ymrwymo ei sefydliad / adran i unrhyw gytundeb o'r fath a wneir yn y cyfarfod.
Trefniadau	• Bydd y Bwrdd Cynghori ar Gomisiynu'n sicrhau ei fod yn glynu wrth y rheoliadau caffael fel y'u nodir o fewn y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol bob amser. • Er mwyn i'r Bwrdd fod yn gworwm, rhaid i'r

	cyfarfod gynnwys y CHTh neu ei Gyfarwyddwr Comisiynu, ynghyd ag o leiaf pedwar aelod Bwrdd neu eu cynrychiolwyr. • Bydd gwaith gweinyddol y bwrdd yn cael ei gyflawni gan y Swyddog Cymorth Comisiynu. • Bydd yr agenda a dogfennau ategol yn cael eu rhannu ymysg pob aelod Bwrdd 5 diwrnod cyn y cyfarfod. • Caniateir eitemau o dan 'Unrhyw Fusnes Arall' yn ôl disgresiwn y Cadeirydd. • Mae gan y Cadeirydd y pŵer dirprwyedig i alw cyfarfodydd ychwanegol ar unrhyw adeg er mwyn mynd i'r afael â pheryglon eithriadol neu faterion y mae angen i'r aelodau ymgynghori yn eu cylch a chytuno iddynt, neu drwy unrhyw fecanwaith arall a farnant yn briodol.

Rheoli Fersiwn

Awdur:	Sarah Thomas
Dyddiad cymeradwyo:	Awst 2018
Dyddiad adolygu:	Awst 2019
Rhif fersiwn:	2.0